Children in Wales
Plant yng Nghymru

E-friffiad i aelodau 01 Tachwedd 2019
Members' e-briefing 01 November 2019

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Mae'r e-friffiad wythnosol hon yn cael ei baratoi'n arbennig ar eich cyfer chi fel rhan o'ch pecyn aelodaeth Plant yng Nghymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi am y newyddion a'r polisïau diweddaraf sy'n effeithio ar blant a theuluoedd yng Nghymru, ac mae hefyd yn cynnwys manylion digwyddiadau a swyddi gwag a allai fod o ddiddordeb i chi.

I weld y rhestr lawn o fuddion aelodaeth sydd ar gael i chi, cliciwch yma. Os oes gennych sylwadau ar yr e-friffiad hon, cysylltwch â info@childreninwales.org.uk.

Mae ein E-friffiad wythnosol yn un o'r manteision unigryw i'n haelodau, ond rydym hefyd yn anfon gwybodaeth allan ar bynciau penodol, fel diogelu neu dlodi. Gallwch chi ddefnyddio ein ffurflen Cadw mewn Cysylltiad i ddweud wrthyn ni beth sydd o ddiddordeb i chi, a byddwn ni'n rhoi gwybodaeth reolaidd i chi am bolisi, digwyddiadau, hyfforddiant, ymgyngoriadau a chynadleddau perthnasol.

Swyddi Gwag

Dewch o hyd i'r swyddi gwag diweddaraf ar wefan Plant yng Nghymru. Peidiwch ag anghofio - gall aelodau hysbysebu am ddim.

Hyfforddiant a digwyddiadau

13 Tachwedd 2019	Rhannu Gwybodaeth Anodd gyda Phlant	Caerdydd
26 Tachwedd 2019	Cefnogi Iechyd Meddwl a Lles Pobl Ifanc	Caerdydd
10 Rhagfyr 2019	LHDT a Datblygiad Plant	Caerdydd
17 Rhagfyr 2019	Trawsnewidiadau: Cefnogi Plant a Phobl Ifanc Trawsryweddol	Caerdydd
09 Ionawr 2019	Diogelu Plant Anabl	Caerdydd

22 Ionawr 2019	"Cadw Ein Plant Yn Ddiogel" Hyfforddiant ar gyfer yr Arweinydd Amddiffyn Plant	Caerdydd

Gellir cael mynediad at amserlen yr hyfforddiant a'r digwyddiadau yn llawn o wefan Plant yng Nghymru.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant i'n haelodau.

Arolwg Tlodi Plant A Theuluoedd 2019

Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn cynnal Arolwg Tlodi Plant a Theuluoedd am y 4 blynedd diwethaf, sy'n ein helpu i ddeall lefelau a thueddiadau tlodi plant yng Nghymru.

A allech chi ein helpu ni trwy gwblhau ein Harolwg byr sydd ar-lein?

Gallwch ddod o hyd i'r Arolwg yn:

Arolwg Tlodi Plant a Theulouedd 2019:
https://www.surveymonkey.co.uk/r/NYPMVV7

Child and Family Poverty Survey 2019 - Young People's Version
https://www.surveymonkey.co.uk/r/F7HDTGH

Mae'r Arolwg yn rhedeg tan 25ain Tachwedd 2019

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH!

Adroddiad Senedd Ieuenctid Cymru: Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm

Mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi cyhoeddi eu hadroddiad cyntaf erioed, ymchwiliad i sgiliau bywyd yn y cwricwlwm.

Mae'r adroddiad yn nodi manylion canfyddiad eu hymgynghoriad ar sgiliau bywyd yn y cwricwlwm, ac yn cyflwyno nifer o argymhellion.

"Mae sgiliau bywyd yn bwysig i ni gan ei fod yn amlwg bod diffyg clir ohonyn nhw yn ein cwricwlwm", dyna mae'r Pwyllgor Sgiliau Bywyd yn y Cwricwlwm yn ei ddweud yn yr adroddiad. Ffurfiwyd y Pwyllgor o 14 aelod o'r senedd i gynnal yr ymgynghoriad.

Gofynnodd yr ymgynghoriad i bobl ifanc ac oedolion roi eu barn ar addysg sgiliau bywyd gyfredol.

Argymhelliad y pwyllgor oedd defnyddio dull mwy cyson o ymdrin ag addysg sgiliau bywyd ar draws y wlad, trefnu bod gan bob ysgol gydlynydd sgiliau bywyd, ac y dylai fod Comisiynydd Sgiliau bywyd i sicrhau safonau ledled Cymru.

I ddarllen yr adroddiad llawn, gan gynnwys canfyddiadau'r ymgynghoriad a phob un o'r 13 argymhelliad, ewch i wefan Senedd Ieuenctid Cymru.

Llywodraeth Cymru yn lansio dull gweithredu ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio dull newydd o ymdrin ag addysg a gofal plentyndod cynnar.

Nod diwygio'r ddarpariaeth gofal blynyddoedd cynnar yw creu un dull plentyn-ganolog o ymdrin ag addysg a gofal plentyndod cynnar.

Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant o gefndir difreintiedig a'u cyfoedion.

Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau gwell mynediad at addysg a gofal plant i rieni a phlant, mewn ffyrdd sy'n diwallu eu gwahanol anghenion a'u hamgylchiadau.

Bydd y newid arfaethedig yn digwydd yn ystod y deng mlynedd nesaf, a'r cam cyntaf at hynny fydd bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu fframwaith ansawdd, yn nodi'r egwyddorion a'r gofynion ar draws y sector.

Gallwch chi ddarllen datganiad ysgrifenedig Prif Weinidog Cymru ar y lansio ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rhwydwaith Ymchwil Tlodi Tanwydd: Digwyddiad Tlodi Tanwydd yng Nghymru, 25 a 26 Tachwedd 2019

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Tlodi Tanwydd yn cynnal eu seithfed digwyddiad yng Nghaerdydd ar 25 a 26 Tachwedd eleni.

Bydd y digwyddiad, a gyflwynir mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, yn edrych ar a fydd newid o danwydd ffosil yn gyfle neu'n her o safbwynt tlodi tanwydd, a goblygiadau tlodi tanwydd a rhywedd a thlodi tanwydd yn yr Hebrides Allanol.

Cost y digwyddiad yw £30 a gallwch chi archebu tocynnau yma.

Digwyddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru: Cynhadledd Llesiant a lechyd Myfyrwyr mewn AU

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) yn cynnal cynhadledd genedlaethol ar iechyd a llesiant mewn addysg uwch.

Cynhelir y digwyddiad, 'Addysg Uwch ar gyfer Cenedl Iach: Llesiant a Iechyd Myfyrwyr' ar 20 Tachwedd 2019 yng Nghaerdydd.

Bydd y digwyddiad yn gyfle i'r rhai sy'n bresennol drafod cefnogi iechyd myfyrwyr mewn addysg uwch. Bydd hefyd yn hyrwyddo datganiad sefyllfa HEFCW ar iechyd a llesiant mewn AU. Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, fydd yn agor y gynhadledd.

Gallwch gadw lle yma.

Llywodraeth Cymru yn lansio ymgyrch cynnig gofal plant Cymru



Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgyrch gyfathrebu genedlaethol i annog rhieni i fanteisio ar y cynnig hwn a pheri iddyn nhw deimlo ei fod yn opsiwn ymarferol ar eu cyfer.

Cynhelir yr ymgyrch gychwynnol o fis Hydref 2019 tan fis Mawrth 2020, a bydd yn cynnwys hysbysebion radio, teledu ac ar-lein, ac agor cyfrif Cynnig Gofal Plant Cymru ar Facebook.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu pecyn offer ar gyfer yr ymgyrch i arweinyddion cyfathrebu Awdurdodau Lleol, fel bod modd iddyn nhw roi cefnogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y cynnig gofal plant trwy fynd i dudalen ymgyrch Cynnig Gofal Plant Cymru.

Dylai rhanddeiliaid awdurdodau lleol gysylltu â staff cyfathrebu Llywodraeth Cymru i gael copïau o'r pecyn offer penodol ar gyfer eu hawdurdod lleol nhw.

Plentyndod Chwareus yn lansio ymgyrch yr hydref i ddenu plant allan i'r awyr agored

Mae Plentyndod Chwareus wedi lansio ymgyrch yr hydref i annog plant i chwarae yn yr awyr agored a lleihau amser sgrîn yn ystod y misoedd oerach, yn arbennig hanner tymor mis Hydref.

Er bod y tywydd yn oeri a'r diwrnodau'n byrhau, mae cyfleoedd o hyd i blant chwarae y tu allan, yn ôl Plentyndod Chwareus.

Mae'r sefydliad yma'n dweud bod chwarae'n rhan hanfodol o blentyndod, a bod pob math ar chwarae, yn y cartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned yn bwysig ar gyfer hapusrwydd a datblygiad plentyn.

Mae prosiect Chwarae Hydref yn annog pawb yng Nghymru i ddod ag amser chwarae nôl, a lleihau amser sgrîn, wedi i astudiaethau nodi bod nifer o blant ddim yn cael amser chwarae yn y prynhawn, a bod amser sgrîn yn lleihau'r cyfleoedd i blant dreulio amser y tu

allan.

Dywedodd Mike Greenaway, Cyfarwyddwr Chwarae Cymru a Plentyndod Chwareus:

"Mae misoedd yr hydref a'r gaeaf yn adeg ddelfrydol i fynd allan i grwydro gyda phlant. Mae cymaint o hwyl yn bosibl, p'un ai wrth chwarae concyrs, sblasio mewn pyllau, adeiladu cuddfan, neu fynd ar helfa fforio."

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae annog plant i fynd allan, chwarae a chael antur yn yr awyr agored yr hydref yma, ewch i www.playfulchildhoods.wales.

Am y newyddion a'r polisi diweddaraf ewch i wefan Plant yng Nghymru.

Children in Wales
Plant yng Nghymru

This weekly e-briefing is prepared exclusively for you as part of your membership to Children in Wales. It provides you with information on the latest news and policy impacting on children and families in Wales, and also includes details of events and vacancies which may be of interest to you.

To view the full list of membership benefits that you can access, please click here. If you have any comments about this e-briefing please contact info@childreninwales.org.uk.

Our weekly E-Briefing is a benefit just for our members, but we also send out information on specific topics, like safeguarding or poverty. You can use our Keep in Touch form to tell us what you're interested in and we'll keep you informed about relevant policy, events, training, consultations and conferences.

Vacancies

Find the latest job vacancies on the Children in Wales website. Don't forget - members can advertise for free.

Training and events

15 November 2019	Telling Children Difficult Information	Cardiff

26 November 2019	Supporting Young People's Mental Health & Wellbeing	Cardiff
10 December 2019	LGBT & Child Development	Cardiff
17 December 2019	Transitions: Supporting Transgender Children and Young People	Cardiff
09 January 2020	Safeguarding Disabled Children	Cardiff
21 January 2020	"Keeping Our Children Safe" Training for the Designated Child Protection Lead	Cardiff

The full training and events schedule can be accessed from the Children in Wales website.

Click here for more information about our members' events and training.

Child & Family Poverty Survey 2019

Children in Wales have been carrying out an Annual Child & Family Poverty Survey for the last 4 years, which helps us to understand levels and trends of child poverty in Wales.

Please could you help us by completing our short Online Survey.

You can find the survey at:

Child and Family Poverty survey 2019
https://www.surveymonkey.co.uk/r/NYPMVV7

Child and Family Poverty Survey 2019 - Young People's Version
https://www.surveymonkey.co.uk/r/F7HDTGH

The survey runs until 25th November 2019

THANKS FOR YOUR SUPPORT!

Welsh Youth Parliament Report: Life Skills in the Curriculum

The Welsh Youth Parliament has published their very first report, an inquiry into life skills in the curriculum.

The report details the finding of their consultation on life skills in the curriculum, and makes a number of recommendations.

"Life skills are important to us as it's obvious there is a clear lack of them in our

curriculum," the Life Skills in the Curriculum Committee says in the report. The Committee was formed from 14 members of the parliament to conduct the consultation.

The consultation asked young people and adults to give their views on current life skills education.

The committee recommended that a more consistent, nationwide approach be taken to life skills education, that each school should have a like skills coordinator and there should be a Life Skills Commissioner to ensure standards across Wales.

To read the full report, including the consultation findings and all thirteen recommendations, please visit the Welsh Youth Parliament website.

Welsh Government launches Early Childhood Education and Care approach

The Welsh Government has launched a new approach to early childhood education and care.

The reform of the provision of early years care is aimed at creating a single, child-centred approach to early childhood education and care.

It is hoped that it will reduce the attainment gap between children from disadvantaged background and their peers.

The Welsh Government hopes that the reforms will allow parents and children better access to education and childcare in ways that meets their differing needs and circumstances.

The proposed change will occur over the next ten years, and the next step will be for the Welsh Government to produce a quality framework setting out the principles and requirements across the sector.

You can read the First Minister's written statement on the launch on the Welsh Government's website.

Fuel Poverty Research Network: Fuel Poverty in Wales Event 25th and 26th November 2019

The Fuel Poverty Research Network are holding their seventh event in Cardiff on the 25th and 26th of November this year.

The event, delivered in partnership with Cardiff University will currently be looking at whether the switch from fossil fuels will be a fuel poverty opportunity or challenge, the implications around fuel poverty and gender and fuel poverty in the Outer Hebrides.

The event costs £30 and you can book tickets here.

Higher Education Funding Council for Wales Event: Student Well-Being and Health in HE Conference

The Higher Education Funding Council for Wales (HEFCW) is holding a national conference on health and well-being in higher education.

The event, 'Higher Education for a Healthy Nation: Student Well-Being and Health' will be on the 20th November 2019 in Cardiff.

The event will allow attendees to discuss supporting student health in higher education. It will also promote HEFCW's position statement on health and well-being in HE. The conference will be opened by the Minister for Education, Kirsty Williams AM.

You can book your place here.

Welsh Government launches childcare offer for Wales campaign



The Welsh Government has launched a national communication campaign to encourage take up of the offer amongst parents and to make them feel that it's a viable option for them.

The initial campaign will run from October 2019 to March 2020, and will include radio, TV and online advertisements, and the opening of a Childcare Offer for Wales Facebook account.

The Welsh Government has also developed a campaign toolkit for communication leads at Local Authorities, to allow them to support the campaign.

You can find out more about the childcare offer by going to The Child Care Offer for Wales campaign page.

Local authority stakeholders should contact communications staff at Welsh Government to obtain copies of the toolkit specific to their local authority.

Playful Childhoods launches autumn campaign to get children outside

Playful Childhoods has launched an autumn campaign to encourage children to play outside and reduce screen time during the colder months, and especially October half-term.

Although the weather is getting colder and the days are drawing in, there are still opportunities for children to play outside, says Playful Childhoods.

Play is a vital part of childhood, the organisation says, and all forms of play, at home, in school or in the community are important for a child's happiness and development.

Project Play Autumn encourages everyone across Wales to bring back play time and reduce screen time, after studies identified a number of children not getting afternoon play time, and screen time reducing opportunities for children to get outside.

Mike Greenaway, Director of Play Wales and Playful Childhoods said:

"The autumn and winter months are a perfect time to get out and explore with children. There's so much fun to be had, be it playing conkers, splashing in puddles, building a den or going on a scavenger hunt."

For more information on how to encourage children to get outside, play and explore this autumn, visit www.playfulchildhoods.wales.

For the latest news and policy please visit the Children in Wales.

STAY CONNECTED:

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.